Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

David J Rowlands AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO428/EJ/GE

12 Mehefin 2018

Annwyl David

Deiseb P-05-818: Cyflwyno Cofrestr o Lobïwyr yng Nghymru

Diolch am eich llythyr yn ymwneud â Deiseb P-05-818.

Ar 16 Mawrth 2018, cyflwynodd y Comisiwn ei ymateb ffurfiol i'r argymhellion a wnaed iddo yn adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar Lobïo. Rwy'n deall eich bod wedi cymryd rhywfaint o ran yn y gwaith, fel aelod o'r Pwyllgor. Trafododd y Comisiwn yr argymhellion ac roedd yn cefnogi dyhead y Pwyllgor Safonau i wella tryloywder a rhoi gwell dealltwriaeth o waith Aelodau etholedig.

Nid wyf mewn sefyllfa i roi barn y Comisiwn ar yr awgrym penodol yn y ddeiseb, ond pe byddai'r Cynulliad yn penderfynu ei fod am gyflwyno cofrestr statudol, a'r ddeddfwriaeth yn unol â hynny, byddai angen i'r Comisiwn ystyried yr adnoddau y byddai angen eu hangen neu sydd ar gael er mwyn galluogi hynny i ddigwydd.

Nid oedd y Pwyllgor Safonau yn argymell cyflwyno Cofrestr Statudol bryd hynny. Rwy'n deall bod canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor yn interim a'i fod yn dymuno dysgu o brofiad a chasglu rhagor o dystiolaeth o arfer gorau. Ei fwriad wedyn yw adolygu ei waith yn 2020 a dod i gasgliadau clir a gwybodus, gan amlinellu cynigion ar gyfer y Chweched Cynulliad.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Felly, ni fyddai'n briodol i'r Comisiwn fynegi barn ar syniad penodol ar hyn o bryd a byddai hynny'n peryglu osgoi'r llwybrau trafod a chraffu perthnasol.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd